# Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# CYNIGION Y GYLLIDEB 2009-10

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales





## COMISIWN CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## CYLLIDEB AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN AR 31 MAWRTH 2010

***Crynodeb***

1. Gosodir y gyllideb hon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27. Bydd hefyd yn cynorthwyo â'r gwaith o baratoi'r Cynnig Cyllideb Blynyddol sy'n ofynnol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn ymdrin â'r adnoddau a'r arian y bydd eu hangen ar Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2010 a'r symiau a bennwyd dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedyn.

2. Bydd y Cynnig Cyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Comisiwn y Cynulliad, uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion hynny yn lle cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru, a swm yr arian y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net y rhagwelir y bydd angen i'r Comisiwn eu talu. Mae Cyllideb 2009-10 Comisiwn y Cynulliad, sy'n ymdrin â'r gofynion hyn, wedi'i gosod allan isod.

**Tabl 1: Cyllideb 2009-10 Comisiwn y Cynulliad**

| | **£000** |
|---|---|
| Adnoddau nad ydynt yn adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cymru i dalu costau refeniw a chyfalaf yn ymwneud â'r gwaith o weinyddu neu redeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau'n ymwneud â'r Comisiynydd Safonau; unrhyw daliadau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaeth Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **47,751** |
| Adnoddau cronnus i'w cadw'n unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru :<br>• Drwy werthu asedau sefydlog ac unrhyw fath arall o incwm cyfalaf i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog;<br>• Incwm rhent; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill ar gyfer y cyhoedd neu eraill i'w ddefnyddio i dalu costau gweinyddol y Cynulliad | **160** |
| Y swm a geir o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir a fydd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn yng nghyswllt y gwasanaethau a'r dibenion uchod llai'r derbyniadau y disgwylir eu cadw a TAW a gellir ei adennill. | **42,351** |

3. Mae *Atodiad 1* yn dangos sut y caiff y Gyllideb ar gyfer 2009-10 ei dyrannu'n ôl gwasanaeth/swyddogaeth i gyflawni amcanion strategol Comisiwn y Cynulliad yn ystod Trydydd Tymor y Cynulliad.
Mae *Atodiad 2* yn dangos y gwariant newydd arfaethedig ar gyfer 2009-10 yn erbyn Amcanion Strategol Comisiwn y Cynulliad yn ystod Trydydd Tymor y Cynulliad.
Mae *Atodiad 3* yn dyrannu'r gwariant newydd arfaethedig yn erbyn dosbarthiadau refeniw a chyfalaf.
Mae *Atodiad 4* yn dadansoddi'r gyllideb adnoddau yn ôl natur y gwariant a'r incwm.
Mae *Atodiad 5* yn cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r arian y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru.

***Llywodraethu, Strategaeth a Gwasanaethau***

4. Ym mis Mai 2007 crëwyd Comisiwn y Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cytunodd y Comisiwn, yn fuan iawn, ar ei ddiben ar gyfer Trydydd Tymor y Comisiwn: *gwneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru*.

5. Cytunwyd ar bum blaenoriaeth strategol ategol i lywio penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ac adnoddau:

- **Hyrwyddo ac ehangu diddordeb pobl mewn datganoli**
  Drwy ein gwaith byddwn yn dangos bod y Cynulliad yn gweithio ar ran holl bobl Cymru ac yn annog rhagor ohonynt i gymryd rhan fwy ymarferol yn y broses ddemocrataidd.

- **Dangos undod, arweiniad ac ymateb beiddgar i newidiadau cyfansoddiadol**
  Byddwn yn darparu gwasanaethau craffu a deddfu o'r radd flaenaf, gan gynorthwyo'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig.

- **Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith**
  Rhaid i bob dim a wnawn wrthsefyll prosesau craffu trylwyr. Rhaid i'n gwaith fod yn dryloyw a dylai adlewyrchu natur amrywiol Cymru a'i hieithoedd.

- **Gweithio'n gynaliadwy**
  Byddwn yn rheoli'n gwaith a'n hystâd yn y ffordd fwyaf cynaliadwy bosibl.

- **Gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol**
  Byddwn yn ceisio gwella'n barhaus y gwasanaethau a ddarparwn i'r Aelodau ac i bobl Cymru, gan ddangos ein bod yn defnyddio'n hadnoddau'n ddoeth ac yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian.

6. Sefydlodd Comisiwn y Cynulliad fframwaith llywodraethu a rheoli mewnol hefyd, ac mae'n gyfrifol am ei weithredu. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys safonau ariannol a ffactorau allweddol eraill sy'n rheoli polisïau, fel cynaliadwyedd a chydraddoldeb. Penodwyd pedwar Cynghorydd Annibynnol i sicrhau bod uwch reolwyr y Comisiwn yn cael cymorth ac yn cael eu herio'n adeiladol yn eu rolau. Mae cyfrifoldebau'r Cynghorwyr yn cynnwys monitro perfformiad a chadw golwg beirniadol ar weithdrefnau rheoli arian a rheoli risg y Comisiwn.

7. Sefydlwyd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad, William Graham AC, a thri o Gynghorwyr Annibynnol y Comisiwn. Pwyllgor cynghori ydyw, ac mae ei rôl yn debyg i rôl pwyllgor archwilio mewn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus a chyrff mawr yn y sector preifat. Mae'n cynghori'r Comisiwn ynghylch materion yn ymwneud â risg, llywodraethu da ac

arferion ariannol ac mae hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n bresennol yn y cyfarfodydd ynghyd â chydweithwyr perthnasol. Mae cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a'n harchwilwyr mewnol, RSM Bentley Jennison, hefyd yn bresennol.

8. Er mwyn datblygu perfformiad yn erbyn yr amcanion strategol, mae Bwrdd Rheoli'r Comisiwn wedi sefydlu Dashfwrdd Rheoli Perfformiad i adolygu perfformiad amrywiaeth o ddangosyddion allweddol a cherrig milltir gwasanaethau. Mae'r wybodaeth lefel uchel a gweledol hon yn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i berfformiad ac i allu'r Comisiwn i weithio'n effeithlon drwy gydol y flwyddyn.

9. Mae Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2007-08 yn amlygu'r hyn a gyflawnwyd yn ystod ei flwyddyn gyntaf, gan gynnwys y canlynol:

- Cychwynnodd 7 Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a 2 Fesur Cynulliad ar eu hynt drwy'r Cynulliad yn ystod y flwyddyn (mae paragraff 13 isod yn manylu ar y rheini y cwblhawyd y trafodaethau yn eu cylch). O'r rhain, deilliodd 2 Orchymyn ac 1 Mesur o falot i roi cyfle i Aelodau gyflwyno deddfwriaeth breifat. Cynhaliwyd 8 balot i gyd a chafodd 7 o'r Aelodau llwyddiannus ganiatâd y Cynulliad i gyflwyno deddfwriaeth ar sail eu cynigion. Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn yn arbennig o feichus i'r Aelodau perthnasol ac i staff y Comisiwn sy'n eu cynorthwyo;
- Wrth ymgymryd â'u swyddogaethau craffu a deddfu newydd, mae Aelodau'r Cynulliad wedi mynychu 244 o gyfarfodydd pwyllgor. Yn y cyswllt hwn, cawsant gymorth gan dimau cyfreithiol a thimau chlercio'r Comisiwn a chynhyrchwyd dros 3,500 o ddarnau ysgrifenedig gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau;
- Sefydlwyd, a gwobrwywyd, gwefan newydd sbon, www.cynulliadcymru.org sy'n cynnwys system ddeisebu a fforymau trafod ar-lein.
- Mae 17,000 o ddisgyblion wedi elwa o'n rhaglen addysg, ymwelodd 500,000 o bobl â'r Senedd ers iddi agor, a chafodd y Llinell Gwybodaeth ac Archebu bron 40,000 o geisiadau am wybodaeth. Agorwyd cyfleuster addysgol newydd a chyfoes - Siambr Hywel - ac mae cynlluniau ar y gweill i greu canolfan ymwelwyr yn adeilad hanesyddol y Pierhead lle bydd modd cynnal cynadleddau ac arddangosfeydd i ehangu ymhellach ymdrechion y Cynulliad i ennyn diddordeb y cyhoedd.
- Cadwodd swyddfeydd Tŷ Hywel wobr Lefel 5 y Ddraig Werdd am adeilad nodedig y Senedd ac mae'r Comisiwn yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau i fod yn sefydliad i'w efelychu o ran cynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol.

10. Caiff adroddiadau am reoli perfformiad ariannol eu cyhoeddi'n rheolaidd a chânt eu trafod gan y Comisiwn a'r Bwrdd Rheoli. Roedd yr alldro cyllidebol ar gyfer 2007-08 o fewn 1.6% i'r gyllideb adnoddau o £41.761m, a llwyddwyd i reoli'r galwadau newydd a gododd yn ystod y flwyddyn o fewn y gyllideb.

***Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllideb 2008-09 a Chynigion Cyllideb 2009-10***

11. £46.181m yw cyllideb adnoddau'r Comisiwn ar gyfer 2008-09. Mae'r cyllid yn galluogi'r Comisiwn i fuddsoddi'r arian angenrheidiol yn y gwaith o feithrin gallu i ymdopi â'r prosesau deddfwriaethol newydd a'r cynnydd yn llwyth gwaith y pwyllgorau, i greu gwasanaeth annibynnol a systemau llywodraethu da ar gyfer y Comisiwn newydd ac i fuddsoddi yn y gwaith o ymgysylltu ymhellach â phobl Cymru.

12. Bu cynnydd cyson yng ngwaith y pwyllgorau ers dechrau'r Trydydd Tymor. Yn awr, mae 22 o bwyllgorau (ac eithrio'r Pwyllgor Busnes a'r Comisiwn), o'i gymharu â 17 o bwyllgorau ym mis Rhagfyr 2007, ac yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynulliad bu cynnydd yn nifer y cyfarfodydd ffurfiol, ymweliadau a gweithgarwch oddi ar y safle. Cynyddodd yr amser a neilltuwyd i'r Cyfarfodydd Llawn o 7.5 awr yr wythnos yn ystod yr Ail Gynulliad i 8.5 awr yr wythnos yn ystod y Trydydd Cynulliad. O ddechrau tymor yr hydref ymlaen, mae'r amser wedi cynyddu eto i 9 awr yr wythnos.

13. O ran y rhaglen ddeddfwriaethol, yn ystod y flwyddyn ariannol gyntaf ers sefydlu'r Comisiwn, defnyddiwyd staff ac adnoddau'r Comisiwn i fwrw ymlaen â rhaglen ddeddfwriaethol a oedd yn cynnwys un Mesur Cynulliad Arfaethedig a'r hyn a oedd yn cyfateb i rhwng 4 a 5 Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig. Yn ystod 2008-09 disgwylir (ar sail y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn cael ei thrafod ac sydd wedi'i chynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y 12 mis nesaf) y bydd angen defnyddio adnoddau'r Comisiwn i ddelio â thua 6 Mesur Arfaethedig a 6 Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael eisoes disgwylir y bydd y gwaith deddfwriaethol yn cynyddu eto rhwng y flwyddyn ariannol bresennol a 2009-10, er nad oes digon o wybodaeth ar gael i roi amcangyfrif manwl o'r cynnydd hwn.

14. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd modd defnyddio cyllideb wrth gefn y Comisiwn i dalu am y galwadau cynyddol a fydd yn eu hwynebu yn ystod 2008-09 ac na fydd angen gofyn am gyllideb atodol. Mae'r Comisiwn yn bwrw ymlaen â'i ymdrechion i weithio'n fwy effeithlon fel rhan o'i fframwaith gwella perfformiad ac yn ceisio sicrhau arbedion o £0.3m at ei gilydd i'w ailfuddsoddi yn ystod 2008-09.

15. Yn y dyfodol, rhaid i'r Comisiwn ragweld a chynllunio ar gyfer y newidiadau yn ei lwyth gwaith ac yn y galwadau sydd ar y Cynulliad a'i Aelodau, rhaid iddo ymateb i'r newidiadau hyn ac ymgysylltu'n effeithiol â phobl Cymru. Mae'r Comisiwn, fodd bynnag, yn ymwybodol o'r sefyllfa economaidd bresennol a'r pwysau sydd ar y sector cyhoeddus a phobl Cymru oherwydd hynny. Mewn ymateb i hyn, mae'r Comisiwn wedi llwyddo i gyfyngu'r cynnydd arfaethedig yn ei gyllideb ar gyfer 2009-10 i 3.4%, gan bennu cyllideb adnoddau o £47.751m. Bydd hyn yn gryn her o ystyried lefel bresennol chwyddiant prisiau, ac mae hefyd yn is na'r cynnydd o 4.8% yn y cyllid yr amcangyfrifir a gaiff Cymru ar

gyfer y flwyddyn. Mae'r paragraffau a ganlyn yn egluro'r rhesymwaith dros y gyllideb.

16. Mae Tabl 2 yn cymharu cyllideb adnoddau net 2008-09 a chyllideb adnoddau net 2009-10:

**Tabl 2: Cymharu cyllidebau 2008-09 a 2009-10**

| | | | **£000** |
|---|---|---|---|
| | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| **Cyllideb net 2008-09 a gymeradwywyd ar gyfer Comisiwn y Cynulliad:** | **44,631** | **1,550** | **46,181** |
| **Gofyniad adnoddau net 2009-10 (y gyllideb)** | **47,042** | **709** | **47,751** |

17. Yr elfennau a ganlyn sy'n gyfrifol am y cynnydd arfaethedig o £1.570m (3.4%):

a. Nifer o gostau ychwanegol anorfod: £1.172m (2.5%) oherwydd cynnydd mewn prisiau a chyflogau, gan gynnwys: cynnydd tybiedig o £0.351m (0.76%) yng nghyswllt nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu caffael; cynnydd tybiedig o £0.341m (0.74%) yng nghyflogau a lwfansau Aelodau a Deiliaid Swyddi; a £0.480 (1.0%) i dalu am yr ymrwymiad presennol i godi cyflogau fesul cynyddrannau a'r flwyddyn olaf mewn cytundeb cyflogau tair blynedd gyda staff y Comisiwn. Mae'r cynnydd arfaethedig mewn chwyddiant prisiau yn is na lefel chwyddiant prisiau defnyddwyr ar hyn o bryd. Gall hyn arwain at rywfaint o bwysau ar y gyllideb, ond caiff ei reoli drwy fframwaith rheoli perfformiad ariannol y Cynulliad.

b. £1.512m ar gyfer cynigion gwariant newydd i gyflawni amcanion strategol y Comisiwn, sydd wedi'u nodi yn Atodiadau 2 a 3. Am y tro cyntaf, mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyflwyno targed effeithlonrwydd o £-0.250 yng nghyswllt arian parod fel rhan o'r cynigion gwariant newydd hyn, i'w defnyddio i ariannu'r gyllideb yn gyffredinol. Mae cynigion y Comisiwn yn cynnwys gwella ymhellach y gwasanaethau sydd ar gael i'r Aelodau a'r cyhoedd i sicrhau y gall y Cynulliad dyfu a pharhau i weithredu'n effeithiol wrth gyflawni'r amcanion a osodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ôl trefniadau cynllunio ariannol y Comisiwn, mae'n ofynnol cyflwyno achos busnes sydd wedi'i gostio gyda phob cynnig gwariant newydd a chaiff ei ystyried yn erbyn blaenoriaethau eraill a strategaeth y Comisiwn. Wrthi'n cael eu datblygu mae llawer o'r cynigion, ac maent wedi'u seilio ar amcangyfrifon yn hytrach na chostau pendant. Bydd y cynigion terfynol yn amodol ar achosion busnes gorffenedig gyda phenderfyniadau'n ymwneud â fforddiadwyedd yn gysylltiedig ag ariannu ac effaith.

c. £-0.239m yng nghyswllt effeithlonrwydd ac arbedion ariannol sydd wedi'u sicrhau eisoes drwy wella prosesau a dulliau o weithredu wrth ymgymryd â gwaith y Cynulliad, a bydd yr effaith yn gylchol yn tu hwnt.

d. £-0.875m yng nghyswllt dyraniadau yng nghyllideb 2008-09 ar gyfer prosiectau unigryw na fydd yn digwydd eto yn ystod 2009-10.

18. Mae nifer o ddatblygiadau ychwanegol ar y gorwel a allai effeithio ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad, a'r amlycaf yw adolygiad sylweddol o wasanaethau TGCh ar gyfer y Cynulliad, a'r gwaith o hybu a meithrin gallu'r Cynulliad i ehangu'r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd *(i-change)* a'r panel adolygu annibynnol a fydd yn edrych ar y cymorth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad ac yn cyflwyno adroddiad yn 2009. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl rhoi amcangyfrif manwl o gostau posibl y datblygiadau hyn er bod y costau mewn perthynas â'r adolygiad TGCh yn debygol o fod yn sylweddol ac y bydd yn parhau am nifer o flynyddoedd. Gan ddibynnu at y costau a'r arbedion yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosibl y bydd angen i'r Comisiwn ystyried gwneud cais am gyllideb atodol yn ystod 2009-10.

19. Fel y nodwyd uchod, mae Comisiwn y Cynulliad yn sylweddoli bod y sector cyhoeddus a'r economi gyfan yn wynebu cyfyngiadau ariannol ac amgylchiadau anodd o ran cyllid. Penderfynodd y Comisiwn y byddai'n ceisio cyfyngu ar wariant lle'r oedd hynny'n bosibl ar hyn o bryd a chynllunio ar gyfer cyfnod o wariant gofalus dros y tair blynedd nesaf. Gan hynny, y mae wedi gorfod lleihau neu ddileu rhai elfennau o'i gynlluniau gwreiddiol ar gyfer y gyllideb. Mae'r gyllideb derfynol yn sicrhau digon o adnoddau i gyflawni ei amcanion allweddol, gan hefyd sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd.

***Rhagolwg***

20. Yn y tabl isod, ceir rhagolwg ar y cyllidebau dangosol. Maent yn ystyried costau chwyddiant tybiedig a chostau a gynlluniwyd ymlaen llaw, sy’n cynnwys costau yr ymrwymwyd iddynt eisoes ac sy’n codi ar adegau penodol yn ystod pedair blynedd y cylch etholiadol, a gwariant ar sicrhau asedau hanfodol newydd. Wrth fireinio’r cyllidebau dangosol hyn bydd y Comisiwn yn ceisio parhau â’i strategaeth o sicrhau rheolaeth ariannol dynn a chadarn a chynyddu effeithlonrwydd lle bo hynny’n bosibl. Newydd ddechrau ar y broses o roi Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar waith y mae’r Cynulliad, a chaiff unrhyw newidiadau yn llwyth gwaith y Cynulliad, yng ngofynion yr Aelodau neu unrhyw ddatblygiadau newydd, eu cynnwys yn yr adnoddau presennol, cyhyd ag y bo’n bosibl, ond mae’n amlwg y gallent effeithio ar y cyllidebau dangosol.

**Tabl 3: Cyllideb adnoddau a chyllideb ariannol dangosol ar gyfer 2010-11 a 2011-12**

| | | **£000** |
|---|---|---|
| | **2010-11** | **2011-12** |
| Cyllideb Adnoddau Ddangosol (ac eithrio adnoddau cronnus) | 49,058 | 51,577 |
| Cyllideb Cyfalaf Ddangosol (ac eithrio adnoddau cronnus) | 1,530 | 2,183 |
| Adnoddau Adnoddau Cronnus Dangosol | 160 | 160 |
| Cyllideb Ariannol Dangosol | 44,804 | 47,588 |

***Atodiad 1***

**Comisiwn y Cynulliad: Cyllideb 2009-10 wedi'i dyrannu'n ôl gwasanaethau ac amcanion strategol**

| Gwasanaeth/swyddogaeth | Hyrwyddo ac ehangu diddordeb pobl mewn datganoli | Dangos undod, arweiniad ac ymateb beiddgar i newidiadau cyfansoddiadol | Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith | Gweithio'n gynaliadwy | Sicrhau bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a ddarperir yn y ffordd fwyaf effeithiol | **£000 Cyllideb** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol[1] | 218 | 190 | 687 | 293 | 578 | **1,966** |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol[2] | 100 | 201 | 100 | 67 | 201 | **669** |
| Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad[3] | 1,277 | 1,603 | 693 | 513 | 2,579 | **6,665** |
| Cyfarwyddiaeth Gweithredol y Cynulliad [4] | 3,864 | 1,553 | 5,731 | 3,425 | 4,988 | **19,561** |
| Taliadau cyfalaf[5] | 840 | 840 | 840 | 840 | 840 | **4,200** |
| Wrth gefn[5] | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | **1,000** |
| Arbedion ac effeithlonrwydd | -50 | -50 | -50 | -50 | -50 | **-250** |
| **Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn ei gyfanrwydd** | **6,449** | **4,537** | **8,201** | **5,288** | **9,336** | **33,811** |
| Cyflogau a lwfansau'r Aelodau, cyflogau Deiliad Swyddi, cyflogau staff yr Aelodau[6] | | | | | | **13,940** |
| **Cyllideb Comisiwn y Cynulliad** | | | | | | **47,751** |

Mae eglurhad o'r gwasanaethau/swyddogaethau uchod ar dudalen 9.

# *Eglurhad o'r gwasanaethau/swyddogaethau*

## [1] Yr Uned Gorfforaethol

Mae'r Uned Gorfforaethol yn darparu gwasanaethau Ysgrifenyddol i Gomisiwn y Cynulliad ac i'r Bwrdd Rheoli ac yn rhoi cymorth i'r Llywydd a'r Prif Weithredwr; ac mae'n gyfrifol am Reoli Cofnodion, Rhyddid Gwybodaeth, Cyfathrebu Mewnol a Rheoli Archwiliadau. Mae 27 aelod o staff yn y gwasanaeth hwn. Y prif brosiect sydd ar y gweill yn 2009-10 yw datblygu system archifo newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Amcangyfrifir y bydd yn costio £0.030m.

## [2] Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol: yn rhoi cyngor ynghylch Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau; yn craffu ar is-ddeddfwriaeth, yn rhoi cyngor i'r pwyllgorau a'r Aelodau i'w helpu i graffu ar waith y Llywodraeth ac yn rhoi cyngor corfforaethol. Mae 9 aelod o staff yn y gwasanaeth hwn.

## [3] Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad

Mae'r gyfarwyddiaeth hon yn rhoi cymorth seneddol arbenigol i'r Aelodau i sicrhau bod busnes y Cynulliad yn mynd rhagddo'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae'n cynnwys Gwasanaeth y Pwyllgorau; y Gwasanaeth Deddfwriaeth a Gwasanaeth y Siambr; Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. Y prif brosiectau sydd ar y gweill yn 2009-10 yw'r buddsoddiad mewn Systemau Rheoli Gwybodaeth i wella gwasanaethau i'r Aelodau a'r pwyllgorau a fydd yn costio £0.150m; a Meddalwedd Deddfwriaeth, a fydd yn costio £0.100m. Mae 135 aelod o staff yn y gyfarwyddiaeth hon.

## [4] Cyfarwyddiaeth Gweithredol y Cynulliad

Mae'r gyfarwyddiaeth hon yn rhoi cymorth gyda gwaith cyfathrebu a chymorth gweithredol i'r Comisiwn, i Aelodau'r Cynulliad ac i bawb sy'n ymweld ag ystâd y Cynulliad. Mae'r prif brosiectau sydd ar y gweill yn 2009-10 yn cynnwys costau cychwynnol y rhaglen i-change a gosod system ddarlledu newydd yn Nhŷ Hywel (£0.429m at ei gilydd); gwella cynaliadwyedd (£0.100m); a rhaglen o ddatblygiadau a gweithgareddau i i gryfhau'r ymgysylltiad â phobl Cymru, (£0.325m). Mae 199 aelod o staff yn y gyfarwyddiaeth hon.

## [5] Taliadau Cyfalaf / Cyllideb Wrth Gefn

Mae'r Taliadau Cyfalaf yn cynnwys dibrisiant asedau cyfalaf, fel adeilad y Senedd a'i gynnwys, a thaliadau llog tybiannol sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddir gan y Comisiwn. Codir llog tybiannol ar werth net yr asedau, ac eithrio asedau a gafwyd yn rhodd a balansau arian gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol.
Mae'r Gyllideb Wrth Gefn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i'r Comisiwn er mwyn iddo fedru ymateb i alwadau annisgwyl etc. a all godi yn ystod y flwyddyn, heb orfod gwneud cais i'r Cynulliad am gyllideb atodol. Mae'n adlewyrchu'r drefn gyfrifyddu sy'n rhwystro adnoddau ac arian na chânt eu defnyddio rhag cael eu trosglwyddo o'r naill flwyddyn i'r llall.

## [6] Cyflogau a lwfansau'r Aelodau, cyflogau Deiliaid Swyddi a chyflogau staff yr Aelodau

At ei gilydd, cost cyflogau, gan gynnwys pensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol, yw £5.258m. Mae Aelodau'r Cynulliad yn cael lwfansau i redeg eu swyddfeydd etholaethol ac i gyflogi staff i'w cynorthwyo yn eu gwaith fel Aelodau Cynulliad. Y gost o gyflogi staff gan gynnwys pensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol, yw £5.746m ac mae'r lwfansau'n costio £2.936m. Mae Tâl a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad wedi'u gosod allan yn y 'Penderfyniadau' sydd i'w gweld ar y wefan www.cynulliadcymru.org.

***Atodiad 2***

**Comisiwn y Cynulliad: Y gwariant newydd arfaethedig ar gyfer 2009-10 yn erbyn yr amcanion strategol**

| | Hyrwyddo ac ehangu diddordeb pobl mewn datganoli | Dangos undod, arweiniad ac ymateb beiddgar i newidiadau cyfansoddiadol | Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith | Gweithio'n gynaliadwy | Sicrhau bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a ddarperir yn y ffordd fwyaf effeithiol | **£000 Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella effeithlonrwydd a'r modd rydym yn darparu gwasanaethau drwy fuddsoddi mewn systemau TG | 119 | 205 | 138 | 97 | 150 | **709** |
| Cryfhau gweithgareddau i ymgysylltu â phobl Cymru | 243 | 100 | 6 | 16 | - | **365** |
| Cynnal gwaith y Cynulliad | 30 | 75 | 68 | 123 | 9 | **305** |
| Arian ychwanegol wrth gefn | 27 | 27 | 27 | 25 | 27 | **133** |
| **Cyfanswm** | **419** | **407** | **239** | **261** | **186** | **1,512** |

***Atodiad 3***

**Gwariant newydd arfaethedig ar gyfer 2009-10 i gyflawni'r blaenoriaethau strategol**

| | | | **£000** |
|---|---|---|---|
| | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| ***Gwella effeithlonrwydd a gwasanaethau drwy fuddsoddi mewn systemau TG:*** rhaglen strategol i newid y systemau TGCh; System Rheoli Busnes a Phwyllgorau; System Deddfwriaeth ar gyfer Mesurau Cynulliad; System Rheoli Gwybodaeth Ymchwil yr Aelodau; System Cyhoeddi Lwfansau Aelodau; system ddarlledu ddigidol. | 100 | 609 | **709** |
| ***Cryfhau gweithgareddau i ymgysylltu â phobl Cymru:*** Canolbwyntio ar y Cynulliad – rhaglen o weithgareddau ar hyd a lled Cymru yn ystod y flwyddyn; gwella'r rhaglen allgymorth sy'n cysylltu â chymunedau; datblygu technoleg e-ddemocratiaeth. | 365 | - | **365** |
| ***Cynnal gwaith y Cynulliad :*** datblygu system archifo newydd; lleihau allyriadau carbon ar ystâd y Cynulliad; gwella profiad y rhai sy'n ymweld â Thŷ Hywel; talu costau staff a gaiff eu recriwtio i ddelio â'r pwysau cynyddol ar y Gwasanaethau Cyfreithiol, TGCh/Ystadau, Cyllid a Chynaliadwyedd; caiff hyn ei osod yn erbyn taged effeithlonrwydd o £0.250m. | 205 | 100 | **305** |
| ***Cynyddu'r gyllideb wrth gefn:*** Bydd £0.133m ychwanegol yn codi'r gyllideb wrth gefn i £1m, sef 2% o'r gyllideb adnoddau. Pennwyd cyllideb wrth gefn o £0.867m ar gyfer 2008-09. | 133 | | **133** |
| **GWARIANT NEWYDD ARFAETHEDIG 2009-10** | **803** | **709** | **1,512** |

## *Atodiad 4*

## Dadansoddi'r gyllideb yn ôl natur y gwariant a'r incwm

| | Cyllideb 2009-10 | Cyllideb 2008-09 | £000 Gwir wariant 2007-08 |
|---|---|---|---|
| *Gwariant Refeniw* | | | |
| Cyflogau a lwfansau'r Aelodau, cyflogau Deiliaid Swyddi, cyflogau staff yr Aelodau | 14,005 | 13,701 | 12,015 |
| Cyflogau staff gan gynnwys cyfnodau o secondiad mewnol | 13,871 | 12,659 | 10,512 |
| Costau Adnoddau Dynol gan gynnwys recriwtio a chyfarpar iechyd a diogelwch | 176 | 159 | 172 |
| Hyfforddiant corfforaethol a chostau hyfforddi a datblygu staff / Aelodau | 250 | 241 | 217 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 230 | 218 | 140 |
| Costau TGCh gan gynnwys y wefan, darlledu a thrwyddedu a chostau cynnal a chadw | 3,978 | 3,373 | 3,568 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau gan gynnwys ardrethi, trydan, arlwyo, glanhau a chynnal a chadw | 7,169 | 6,764 | 7,721 |
| Costau ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd, gan gynnwys gwasanaethau ymwelwyr, gwasanaethau allgymorth a digwyddiadau cenedlaethol | 921 | 551 | 447 |
| Costau gweinyddol eraill [1] | 1,652 | 1,483 | 2,464 |
| Dibrisiant a thaliadau llog tybiannol | 4,200 | 4,775 | 3,836 |
| Cronfa wrth gefn | 1,000 | 867 | - |
| Arbedion ac effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn | -250 | - | - |
| **Gwariant Refeniw Gros** | **47,202** | **44,791** | **41,092** |
| *Incwm Refeniw* | | | |
| Gwerthu nwyddau yn Siop y Cynulliad | -40 | -31 | -36 |
| Rhentu Adeiladau | -90 | -104 | -114 |
| Incwm amrywiol | -30 | -25 | -1 |
| **Incwm Refeniw Gros** | **-160** | **-160** | **-151** |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **47,042** | **44,631** | **40,941** |
| Gwariant cyfalaf – creu asedau sefydlog | 709 | 1,550 | 156 |
| Incwm cyfalaf – gwerthu asedau sefydlog | - | - | - |
| **GWARIANT CYFALAF NET** | **709** | **1,550** | **156** |
| **GOFYNIAD ADNODDAU NET** | **47,751** | **46,181** | **41,097** |

*[1]. Mae costau gweinyddol eraill yn cynnwys eitemau fel costau cyfieithu cwmnïau allanol, costau cyhoeddi a gwasanaeth gwybodaeth electronig, costau postio ac offer swyddfa a chostau cyffredinol eraill yn ymwneud â gweinyddu.*

***Atodiad 5***

## Cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r arian y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru

| | | | **£000** |
|---|---|---|---|
| | **2009-10** | **2010-11** | **2011-12** |
| Gofyniad Refeniw Net | 47,042 | 49,058 | 51,577 |
| Gofyniad Cyfalaf Net | 709 | 1,530 | 2,183 |
| *Addasiadau:* | | | |
| Costau heb fod yn gostau ariannol (dibrisiant, llog tybiannol) | -4,200 | -4,525 | -4,852 |
| Diffygion | - | - | - |
| Newidiadau mewn darpariaethau | -500 | -515 | -530 |
| Elw/colled wrth werthu asedau | - | - | - |
| Newidiadau mewn stoc | - | - | - |
| Newidiadau o ran dyledwyr a chredydwyr | -700 | -744 | -790 |
| Defnyddio darpariaethau | - | - | - |
| Arall | - | - | - |
| **Gofyniad arian net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **42,351** | **44,804** | **47,588** |